

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant**  
**Neuadd Talog, Nos Iau, 13eg o Fai 2021**

**Yn bresennol:** Mr Ian Williams, Mr Eirian Howells, Mrs Katrina Gabillia, Mr Chris Bish, Cllr Jean Lewis

**1. Sylwadau'r Cadeirydd:** Mi wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Mr Paul Moggridge, Mr Robin Williams

**3. Cadarnhau cofnodion mis Medi 2020 :**

Cynnig: Mr Ian Williams

Eilio: Mr Chris Bish

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

(a) Mae erydiad y tir ar gornel ger Cilwendeg yn gwaethygu. Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir i adolygu ac adrodd yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf o Gyngor Cymuned

(b) Mae'r diffibriliwr ei hunan yn Abernant wedi cael ei symud gan Cyngh E.Howells. Cadarnhad swyddogol wedi cael ei dderbyn gan Gyngor Sir Gâr i symud y cabinet i leoliad arall. Fe drafodwyd lleoliadau newydd i roi'r diffibriliwr yn ei le – naill ai ger hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned neu ger gardd y Ffermwyr Ifanc. Mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Gorffennaf

Mae'r cynghorydd C.Bish wedi llwyddo i gael drws newydd i'r diffibriliwr sydd yn Haulwen ac mi fydd yn rhoi'r drws newydd yn ei le dros yr wythnosau nesaf

Mae'r padiau achub bywyd allan o ddyddiad. Clerc i ymgynghori cost am rai newydd. Cynghorydd Sir Mrs Jean Lewis i gysylltu gydag Adran Safonau Masnachu Cyngor Sir Gâr ynghlyn a chwmni Cariad. Mae'r Cyngor Cymuned yn hynod o siomedig gyda lefel gwasanaeth cwsmeriaid am nad ydynt yn ateb e-byst.

(c) Cytunwyd i Gynghorydd I.Williams i dderbyn gohebiaeth Un Llais Cymru

(d) Mae blwch ffôn ym mhentref Abernant wedi cael ei dynnu oddi ar y safle oherwydd diffyg defnydd. Mae'r blwch ffôn ym mhentref Talog yn saff yn ei le. Cynghorydd Sir Mrs Jean Lewis i gysylltu gyda BT i'w hysbysu i beidio â thynnu'r blwch ffôn o'r safle gan mai hon yw'r unig flwch ffôn yn yr ardal ac yn darparu gwasanaeth i'r trigolion

(dd) Clerc i atgoffa Adran Briffyrdd Cyngor Sir am y materion sydd dal heb gael ei datrys ar y ffordd rhwng Penrheol a Lleine – mae angen llenwi ymylon y ffordd. Yn ystod cyfnodau o law trwm mae yna ddŵr yn sefyll lle mae yna bant. Rhaid hefyd llenwi ymylon y ffordd o Gapel Cendy i Glwb Gwledig Cwm

(e) Cynghorydd Sir Mrs Jean Lewis i ofyn i Heddlu Dyfed Powys os yw'n bosibl i fonitro cyflymder drwy bentref Talog ac Abernant

**5. Gohebiaeth**

Fe ddaeth nifer o e-byst i sylw'r cynghorwyr

**6. I'w drafod**

(a) Mae tyllau yn yr heolydd yn fater enfawr yn y gymuned. Clerc i adrodd i'r adran priffyrdd

(b) Mae'r draeniau ger Bethania a Awelem angen cael ei glanhau

(c) Mae'r goeden ger Brynbach yn pwyso allan i'r hewl – cysylltu gyda Chyngor Sir

(ch) Mae'r bin ailgylchu dillad wedi bod yn llawn am sawl wythnos. Mae'r cynghorydd I.Williams wedi gofyn i'r Cyngor Sir i'w gwacau. Cynghorydd Sir Mrs Jean Lewis i ddilyn fyny gyda'r Cyngor Sir

(d) Mae yna dwll mawr yn yr heol wrth fynedfa stad Lôn y Felin

(dd) Mae yna lawer iawn o gerrig bach ar yr hewl ger iard H.D.Griffiths oherwydd erydiad arwynebedd yr hewl. Clerc i gysylltu gyda'r adran briffyrdd y Cyngor Sir

(e) Mae'r ffos ar ochr hewl i Benrallt angen cael ei lanhau

(f) Mae angen arwyddion newydd ger Afallon a Pwllidyfarch

(ff) Adroddwyd gan Gyngorydd I.Williams fod yna gynllun newydd 'Y Cynllun Peilot Digidol' a fydd yn gallu darparu gliniadur a 2 tabled. I.Williams i ymgynghori gyda Jamie Hornton gyda CAVS i drafod y broses ymgeisio

(g) Mi ddwedodd Cyngorydd I.Williams y dylai wefan gymunedol ddarllen 'Cyngor Cymuned Abernant nid Abernant,Talog. Cyngorydd C.Bish i gysylltu gyda golygydd y wefan

(ng) Mi benderfynwyd i barhau gyda Cwmni Yswiriant BHIB ar gyfer yswiriant Cyngor Cymuned Abernant

(h) Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned erbyn hyn gyda'r archwiliwr ar gyfer archwiliad mewnol. Cytunwyd gan y cynghorwyr i ddanfod llythyr at gwmni Charles and Co i ddweud bod rhaid i'r cyfrifon gael ei archwilio a'i llofnodi erbyn y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin

(i) Atgoffwyd gan y Clerc am yr angen i newid enwau'r llofnodwyr i Elusen Thomas Howell. Penderfynwyd ychwanegu hyn i agenda'r cyfarfod blynyddol

(j) Fe wnaeth Cyngorydd I.Williams grybwyll am fenter a wnaeth y Cyngor Cymuned gyflawni rhai blynyddoedd yn ôl fel rhan o Gynllun Cadw Talog yn daclus. Fe wnaeth y Cyngor Cymuned bryd hynny drefnu diwrnod dod a chymryd er mwyn i'r gymuned allu dod gydag eitemau nad oeddent am gadw ac i eraill helpu ei hunain i'r eitemau. Trafodwyd y syniad i'r Cyngor Cymuned logi sgip fel bod aelodau o'r gymuned yn gallu cael gwared ar eitemau. Penderfynwyd trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf

(k) Clerc i orffen prif dudalen ar safle we'r Cyngor Cymuned Abernant

## **7. Taliadau**

Cyllidau a Thollau (HM Revenue and Customs) - £62.60

Cyllidau a Thollau (HM Revenue and Customs) - £62.40

Cwmni Yswirio BHIB - £145.44

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.15yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau, 1af o Orffennaf am 7.30yh yn Neuadd Talog.